

Golygydd

Cyflwyniad

Mae golygyddion yn ymdrin ag ochr fusnes cynhyrchu cyhoeddiad. Maent yn dethol, yn adolygu, yn trefnu ac yn paratoi deunydd cyn iddo gael ei argraffu neu ei gyhoeddi. Mae golygyddion yn gweithio i gyhoeddwr llyfrau neu i bapurau newydd, cylchgronau a chyfnodolion, yn cynnwys fersiynau ar-lein.

Adwaenir hefyd fel

- Golygydd Cyhoeddi
- Golygydd Comisiynu
- Golygydd Papur Newydd
- Golygydd Cyfnodolion



Gweithgareddau Gwaith

Fel Golygydd, byddwch yn ymdrin ag ochr fusnes y broses o gynhyrchu cyhoeddiad, er enghraifft llyfr, papur newydd, cylchgrawn neu wefan. Byddwch yn dethol, yn adolygu, yn trefnu ac yn paratoi deunydd ar ei gyfer. Byddwch hefyd yn gyfrifol am yr arddull a'r cynnwys, yn ogystal ag am nodi bylchau yn y farchnad.

Fel Golygydd sy'n gweithio ym maes cyhoeddi llyfrau, byddwch yn treulio llawer o'ch amser yn adolygu ac yn darllen llawysgrifau. Byddwch yn dethol y rheiny sy'n addas ac yna'n comisiynu'r awduron i'w hysgrifennu. Rhaid i chi fonitro cynnydd gwaith yr awdur i derfynau amser (neu 'gerrig milltir') y cytunwyd arnynt. Gallai Golygyddion sy'n gweithio i bapurau newydd neu gylchgronau fod yn gyfrifol am y cyhoeddiad cyfan, neu am ran benodol ohono, er enghraifft y tudalennau chwaraeon. Byddwch yn penderfynu pa erthyglau fydd yn cael eu cynnwys a sut y byddant yn cael eu gosod. Yn dibynnu ar y cyhoeddiad, efallai y byddwch hefyd yn adolygu ac yn dethol cyflwyniadau neu syniadau newydd ar gyfer erthyglau gan awduron llawrydd. Mae golygyddion rhai papurau newydd a chylchgronau yn ysgrifennu rhai eitemau eu hunain, er enghraifft ar gyfer yr erthygl agoriadol neu'r sylw golygyddol. O ran cyhoeddiadau mawr, mae'n bosibl y bydd Golygyddion arbenigol, er enghraifft, Golygyddion Llundain, Golygyddion Comisiynu a Golygyddion Cynhyrchu. Fel Golygydd sy'n ymdrin ag awduron ac awduron llawrydd, byddwch yn gyfrifol am negodi contractau a chreu briffiau clir. Bydd hyn yn cynnwys faint o gyflog y byddant yn ei gael, erbyn pryd y dylid cwblhau'r gwaith, a pha mor hir y dylai fod. Byddwch hefyd yn rheoli cyllidebau ac yn cyflogi staff. Byddwch fel arfer yn goruchwyllo gwaith yr is-olygyddion neu'r golygyddion copi sy'n gyfrifol am wirio'r gwaith ysgrifenedig am gywirdeb a chamgymeriadau sillafu a gramadeg (neu, gallai fod yna brawfddarllenrydd mewnol), cydymffurfiaeth â'r arddull ty a materion cyfreithiol posibl. Mae'n bosibl y bydd y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg o fantais i chi wrth chwilio am waith yng Nghymru.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

Fel Golygydd, byddwch angen:

- sgiliau cynllunio a threfnu da
- sgiliau Saesneg ardderchog
- sgiliau arwain a busnes
- sgiliau rhyngpersonol ardderchog a'r gallu i weithio mewn tîm
- sgiliau creadigol, er mwyn meddwl am syniadau newydd ar gyfer y cyhoeddiad
- sgiliau ariannol, er mwyn rheoli cyllidebau
- sgiliau cyfrifiadurol
- y gallu i weithio dan bwysau ac i derfynau amser

Os byddwch yn gweithio i gyhoeddiad arbenigol, er enghraifft cylchgrawn teithio neu gyfnodolyn gwyddonol, bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r tueddiadau neu'r datblygiadau diweddaraf yn y maes. Mae'n debygol y bydd angen i olygyddion sy'n gweithio i gyhoeddiadau ar-lein feddu ar sgiliau golygu gwefan a gwybodaeth am dechnolegau a thueddiadau ym maes y cyfryngau cymdeithasol.

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog

Cyfraddau cyflog bras yw'r cyfraddau isod.

- Cyflog cychwynnol: £25,500 - £28,000
- Gyda phrofiad: £30,500 - £36,5000
- Mae Uwch Olygyddion yn ennill £40,500 - £45,500

Mae bonysau sy'n gysylltiedig ag elw yn gyffredin.

Mae Golygyddion Llawrydd yn negodi ffioedd â Chyhoeddwr unigol. Gallwch ddod o hyd i ganllaw defnyddiol ar gyfraddau llawrydd ar wefan Undeb Genedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ). **Oriau gwaith**

Mae Golygyddion yn gweithio oriau swyddfa o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i chi weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau, yn enwedig wrth i derfynau amser agosáu.

Ble y gallwn weithio?

Mae cwmnïau cyhoeddi yn cyflogi Golygyddion, naill ai ar sail gyflogedig neu llawrydd. Mae'r rhain naill ai'n sefydliadau mawr sy'n gyfrifol am amrywiaeth eang o gyhoeddiadau, neu'n gwmnïau bach arbenigol sy'n ymdrin ag un neu ddau o feysydd cyhoeddi yn unig, er enghraifft, llyfrau plant neu gyhoeddi addysgol. Mae yna gyfleoedd ar gyfer Golygyddion i'w cael mewn trefi a dinasoedd ledled y DU.

Hunangyflogaeth Gall golygyddion weithio fel Golygyddion llawrydd hunangyflogedig. Mae cyfleoedd hefyd i weithio o gartref. **Ble y mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu?** Mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu mewn papurau newydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae yna hefyd fyrdau swyddi ac asiantaethau recriwtio arbenigol ar gael ar gyfer y diwydiant cyhoeddi. Yn ogystal, mae gan nifer o fyrdau swyddi cyffredinol adran swyddi golygu neu gyhoeddi. Mae swyddi gwag hefyd yn ymddangos ar wefannau 'Hold the Front Page' a 'Press Gazette'.

Mae'n syniad da adeiladu rhwydwaith o gysylltiadau perthnasol, gan nad yw pob swydd olygu yn cael ei hysbysebu. Gall fod yn ddefnyddiol gwneud ceisiadau ar hap am swyddi yn y diwydiant hwn.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr llwyddiannus yn raddedigion sydd wedi gweithio'u ffordd i fyny o swyddi eraill mewn cyhoeddi a newyddiaduraeth. Gallai fod yn bosibl ennill profiad o amryw o swyddogaethau golygu neu gyhoeddi mewn cwmni bach, ac yno ddim ond ychydig o olygyddion yn gwneud yr holl dasgau golygu. Nid yw'r pwnc gradd a ddewiswch yn bwysig fel arfer. Fodd bynnag, os ydych am weithio i gyhoeddiad arbenigol, er enghraifft, cyfnodolyn technegol, meddygol neu wyddonol, mae'n debygol y bydd angen gradd gysylltiedig arnoch. Bydd hyfforddiant yn digwydd yn y gwaith yn bennaf. Yn aml mae gan sefydliadau cyhoeddi mawr gynlluniau hyfforddi yn-y-gwaith strwythuredig. Ffordd wych mewn i'r yrfa hon yw trwy interniaeth. Edrychwch ar ein herthygl wybodaeth ' Interniaethau', am ragor o fanylion. Os hoffech rywfaint o hyfforddiant, mae Canolfan Hyfforddiant Cyhoeddi yn cynnig cwrs rhagarweiniol mewn sgiliau golygu: copi-olygu a phrawfddarlenn. Ar ddiwedd y cwrs, bydd cyfle i chi gyflawni ardystiad PQB. Mae'r unedau y gallech fod yn eu hastudio yn cynnwys:

- llif gwaith cyhoeddi
- copi-olygu a phrawfddarlenn ar sgrin ac ar gopi caled
- nodau safonol BSI ar gyfer prawf-gywiro
- copi-olygu, prawfddarlenn a'r gwahaniaeth rhyngddynt
- trafodaeth ar ymarfer cyn y cwrs ac unrhyw gwestiynau am y cwrs
- beth mae Copi-Olygydd yn ei wneud?
- copi-olygu mewn fformatiau gwahanol
- beth mae Prawfddarlennydd yn ei wneud?
- prawfddarlenn mewn fformatiau gwahanol
- o'r dechrau i'r diwedd: rhannau eraill o'r llyfr

Gwiriwch y wefan am ddyddiadau ac argaeledd. Gallai cyrsiau eraill fod ar gael yn eich ardal chi. **Dilyniant** Yn aml, mae modd symud ymlaen i sefydliad neu gyhoeddiad mwy o faint. Mae rhai Golygyddion yn dod yn hunangyflogedig. Gall Golygyddion hefyd addysgu neu hyfforddi mewn agweddau ar gyhoeddi. **Profiad Gwaith** Byddai profiad blaenorol o weithio mewn rôl fel Cynorthwydd Golygyddol, Copi-Olygydd neu Ohebydd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer yr yrfa hon.

Cymwysterau

Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn raddedigion fel arfer. Gellir cael swydd â gradd mewn unrhyw bwnc, er bod angen gradd mewn pwnc sy'n berthnasol i'ch maes os ydych am fod yn olygydd cyhoeddiadau gwyddonol, technegol a meddygol.

Er mwyn cael lle ar gwrs gradd mewn unrhyw bwnc, fel arfer bydd arnoch angen:

- 2/3 Safon Uwch
- 5 TGAU ar radd C/4 neu uwch.

Fodd bynnag, mae gofynion mynediad yn amrywio'n sylweddol rhwng cyrsiau. Mae'n bosibl y gallai cymwysterau cyfatebol, fel cymhwyster BTEC lefel 3 a Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol, fod yn dderbyniol i gael lle - porwch yn ofalus iawn trwy wefannau colegau/prifysgolion.

Mae rhai prifysgolion yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn gyfwerth ag 1 Safon Uwch.

Cyfleoedd i Oedolion

Sgiliau/profiad

Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr llwyddiannus yn raddedigion sydd wedi gweithio'u ffordd i fyny o swyddi eraill mewn cyhoeddi a newyddiaduraeth.

Gallai profiad perthnasol fod mewn swydd fel cynorthwydd golygyddol, golygydd copi neu ohebydd, er enghraifft.

Cyrsiau

Os nad oes gennych y cymwysterau sydd eu hangen arnoch am le ar gwrs gradd, mae'n bosibl y gallech ddechrau ar ôl cwblhau cwrs Mynediad mewn coleg neu brifysgol. Nid oes arnoch angen unrhyw gymwysterau i ddechrau cwrs Mynediad fel arfer, ond dylech gadarnhau hyn gyda darparwr y cwrs.

Dysgu o bell

Mae'r Ganolfan Hyfforddiant Cyhoeddi (PTC) yn cynnal cwrs mewn Rheoli Prosiectau Golygyddol trwy ddysgu o bell.

Cyllid

Mae'r PTC yn rhoi cymorth ariannol cyfyngedig ar gyfer rhai o'i chyrsgiau byr.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Creative Skillset**
Skills for the creative industries
E-bost info@creativeskillset.org
Gwefan www.creativeskillset.org
- **Creative Choices**
Publisher: Creative & Cultural Skills
E-bost info@creative-choices.co.uk
Gwefan www.creative-choices.co.uk
- **Creative & Cultural Skills**
Skills for craft, cultural heritage, design, literature, music, performing arts and visual arts
E-bost london@ccskills.org.uk
Gwefan ccskills.org.uk
- **Publishing Training Centre at Book House**
E-bost publishing.training@bookhouse.co.uk
Gwefan www.train4publishing.co.uk

- **National Council for the Training of Journalists (NCTJ)**
E-bost info@nctj.com
Gwefan www.nctj.com
- **The National Union of Journalists (NUJ)**
Ffôn 020 78433700
E-bost info@nuj.org.uk
Gwefan www.nuj.org.uk/work/careers/
- **Professional Publishers Association (PPA)**
E-bost info@ppa.co.uk
Gwefan www.ppa.co.uk
- **Society for Editors and Proofreaders (SfEP)**
E-bost administrator@sfep.org.uk
Gwefan www.sfep.org.uk
- **London School of Publishing (LSP)**
E-bost enquiries@publishing-school.co.uk
Gwefan www.publishing-school.co.uk
- **Women In Publishing (WiP)**
Gwefan www.womeninpublishing.org.uk
- **Publishers Association (PA)**
E-bost mail@publishers.org.uk
Gwefan www.publishers.org.uk
- **journalism.co.uk**
Gwefan www.journalism.co.uk
- **Press Gazette: Journalism Today**
E-bost pged@pressgazette.co.uk
Gwefan www.pressgazette.co.uk
- **Hold the Front Page**
E-bost editor@htfp.co.uk
Gwefan www.holdthefrontpage.co.uk
- **NUJ Freelance Fees Guide**
Gwefan www.londonfreelance.org/feesguide/index.html
- **The Bookseller**
E-bost bookseller@escosubs.co.uk
Gwefan www.thebookseller.com
- **Publishing Scotland**
Scottish enquiries
E-bost enquiries@publishingscotland.org
Gwefan www.publishingscotland.co.uk
- **Society of Young Publishers (SYP)**
E-bost sypchair@thesyp.org.uk
Gwefan www.thesyp.org.uk
- **Bookcareers**
Gwefan www.bookcareers.com
- **Inside Book Publishing**

Author: Giles Clark Publisher: Routledge

- **Chartered Institute of Journalists (CIJ)**
Ffôn 020 7252 1187
E-bost memberservices@cij.co.uk
Gwefan www.cij.co.uk

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Argraffwr Peiriant
- Gweithiwr Reprograffeg
- Gorffennwr Argraffu
- Argraffwr Sgrin
- Is-olygydd
- Cynorthwy-ydd Golygyddol
- Darllenydd Proflenni
- Cyhoeddwr
- Geiriadurwr
- Arbenigwr Argraffu 3D